# Cynigion ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig morol newydd yn y moroedd o gwmpas Cymru:
# Ymgynghoriad

**19 Ebrill 2016 i 19 Ebrill 2016**

Cyhoeddwyd gan:

Gyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am – 6pm)
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru
Cedwir pob hawl. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon trwy ganiatâd o flaen llaw gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

## Cyflwyniad

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cyfuno gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Ein diben yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu defnyddio a'u gwella mewn modd cynaliadwy, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Un o'n swyddogaethau ni yw rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ynglŷn â nodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Mae Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, a adwaenir hefyd fel 'safleoedd Natura 2000' neu 'safleoedd Ewropeaidd', yn fesurau sy'n ofynnol o dan gyfraith yr UE ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth. Mae Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn cael eu dynodi er mwyn gwarchod poblogaethau o rywogaethau o adar sydd mewn perygl, neu rai sy'n mudo, a'r cynefinoedd y maent yn dibynnu arnynt, tra bod Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn cael eu dynodi i warchod amrywiaeth o fathau o gynefinoedd a phlanhigion, a rhywogaethau o anifeiliaid ar wahân i adar.

Mae penderfyniadau ynglŷn â dynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yng Nghymru ac yn nyfroedd glannau Cymru, o fewn terfyn môr tiriogaethol o 12 morfilltir, yn cael eu gwneud gan weinidogion Cymru. Mae penderfyniadau ynglŷn â dynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn nyfroedd glannau Lloegr, a dyfroedd tu hwnt i'r terfyn 12 milltir, yn cael eu gwneud gan Ysgrifennydd Gwladol y DU, gan ystyried cyngor *Natural England* a Chyd-bwyllgor Gwarchod Natur y DU.

Ym mis Mehefin 2015, cyflwynodd Cyfoeth Naturiol Cymru gynigion i Lywodraeth Cymru ar gyfer:


- tair Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) newydd ar gyfer gwarchod llamidyddion harbwr *(Phocoena phocoena)*
- un Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) newydd ar gyfer gwarchod gwyachod gyddfgoch *(Gavia stellata)* sy'n gaeafa
- dau estyniad i Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig sy'n bodoli eisoes ar gyfer gwarchod cytrefi adar y môr, er mwyn iddynt gynnwys ardaloedd morol ychwanegol y mae'r adar yn eu defnyddio yn ystod y tymor bridio

Gellir gweld lleoliad y safleoedd hyn ar y map isod. Roedd pob un o'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig arfaethedig, ac un o'r Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig arfaethedig, yn cynnwys dyfroedd y glannau a dyfroedd alltraeth, ac felly mae gweinidogion Cymru a gweinidogion y DU yn rhannu'r cyfrifoldeb, ac maent yn seiliedig ar gyd-argymhellion Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyd-bwyllgor Gwarchod Natur y DU i Lywodraeth Cymru a llywodraeth y DU yn ôl eu trefn. Mae'r tair Ardal Cadwraeth Arbennig arfaethedig hefyd yn rhan o gyfres o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig arfaethedig ar gyfer llamidyddion harbwr, sydd hefyd yn cynnwys ardaloedd eraill yn nyfroedd glannau Lloegr a Gogledd Iwerddon yn ogystal â dyfroedd alltraeth.

Mae gweinidogion Cymru a gweinidogion y DU wedi gofyn i Gyfoeth Naturiol Cymru, a Chyd-bwyllgor Gwarchod Natur y DU gynnal ymgynghoriad cyhoeddus am yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a'r Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig arfaethedig hyn. Mae ymgynghoriad Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur y DU, sydd hefyd yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig posibl ar gyfer llamidyddion harbwr ym Môr y Gogledd a dyfroedd Gogledd Iwerddon, ar gael yn http://jncc.defra.gov.uk/SACconsultation [Saesneg yn unig]

Rhwng mis Chwefror a mis Mai 2015, gwnaethom gynnal cyfres o ddiwrnodau 'galw heibio' anffurfiol mewn amryw leoliadau o gwmpas Cymru. Diben y digwyddiadau hyn, a oedd yn agored i bawb, oedd rhannu gwybodaeth am y cynigion ar gyfer safleoedd a oedd yn yr arfaeth, ynghyd â'r camau nesaf, er mwyn galluogi pobl i'w trafod yn anffurfiol â staff Cyfoeth Naturiol Cymru a staff Llywodraeth Cymru.

Daeth cyfanswm o tua 120 o bobl i'r digwyddiadau hyn, gan gynnwys unigolion a oedd â diddordeb, a chynrychiolwyr sefydliadau statudol a sefydliadau anstatudol o amrywiaeth o sectorau, gan gynnwys pysgodfeydd masnachol, hamdden a thwristiaeth, llywodraeth leol, a chynrychiolwyr cymunedol, ynni, porthladdoedd a llongau, ymchwil forol, a chadwraeth.




## Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?

Mae ymgynghori am y cynigion i ddynodi Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn nyfroedd y glannau yn ofyniad statudol o dan Reoliad 12B Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010. Nid yw ymgynghori am Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn nyfroedd y glannau yn ofynnol yn ôl y gyfraith, ond mae'n ofyniad polisi, ac mae wedi bod yn arfer safonol yn y DU ers blynyddoedd lawer. Mewn perthynas â dyfroedd alltraeth, mae ymgynghoriad am Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac

Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn ofynnol o dan Reoliadau 8 a 13 Rheoliadau Cadwraeth Forol Alltraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) 2007.

Ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyd-bwyllgor Cadwraeth Natur y DU yn adrodd i Lywodraeth Cymru a llywodraeth y DU am y sylwadau a dderbyniwyd gennym.

Mae dwy brif ran i'r ymgynghoriad:

**1. Ymgynghoriad am yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a'r Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig arfaethedig**

Rydym yn ceisio barn rhanddeiliaid ar **sail wyddonol** pob un o'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a'r Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig arfaethedig. Mae diddordeb penodol gennym mewn sylwadau ar y ffordd mae data ar lamidyddion harbwr, a'r rhywogaethau perthnasol o adar, wedi cael eu defnyddio i ddatblygu ffiniau i'r safleoedd arfaethedig, ac i werthuso'r safleoedd yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol ar gyfer nodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig.

**2. Ymgynghoriad am asesiadau drafft o effaith gymdeithasol ac economaidd posibl y cynigion**

Mae contractwyr sy'n gweithio ar ran Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur y DU, Cyfoeth Naturiol Cymru ac asiantaethau cadwraeth statudol eraill y DU wedi drafftio adroddiad ar sail tystiolaeth er mwyn llywio asesiadau o effaith gymdeithasol ac economaidd bosibl yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a'r Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig arfaethedig. Rydym yn cyhoeddi'r adroddiad ar sail tystiolaeth, a'r asesiadau effaith ar ffurf ddrafft, er mwyn cynorthwyo i nodi unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol a fyddai'n helpu i wella'r asesiadau o oblygiadau cymdeithasol ac economaidd posibl y safleoedd arfaethedig.

**Pan fyddwn yn paratoi ein hadroddiadau ar gyfer Llywodraeth Cymru a llywodraeth y DU, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyd-bwyllgor Gwarchod Natur y DU yn ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd. Fodd bynnag, noder y gall penderfyniadau wedi hynny ynglŷn â dynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ystyried dim ond gwybodaeth wyddonol berthnasol, ac mae'n rhaid iddynt fod yn seiliedig ar y canllawiau a'r meini prawf perthnasol. Adroddir am ystyriaethau economaidd neu gymdeithasol, a gallant lywio penderfyniadau ynglŷn â'r ffordd mae Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn cael eu rheoli a'u rheoleiddio, ond ni all gweinidogion eu hystyried pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â dynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, neu wrth bennu eu ffiniau.**

## Pwy all ymateb i'r ymgynghoriad hwn?

Mae hwn yn ymgynghoriad cyhoeddus sy'n agored i ymateb unrhyw unigolion neu sefydliad.

Ar ddechrau'r ymgynghoriad, gwnaethom ni ysgrifennu at amrywiaeth o randdeiliaid mae gennym eu manylion cyswllt. Gwnaethom hefyd gyhoeddi dechrau'r ymgynghoriad hwn trwy gyhoeddi datganiad i'r wasg.

## Sut y gallaf gael mynediad at y dogfennau?

Cyhoeddwyd nifer o ddogfennau fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Mae'r canlynol yn crynhoi'r gwahanol ddogfennau, a sut i gael mynediad atynt.

Mae'r holl ddogfennau wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru www.cyfoethnaturiol.cymru/mn2k a/neu wefan y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur y DU http://jncc.defra.gov.uk/SACconsultation [Saesneg yn unig]. Mae fersiynau argraffedig unrhyw rai o'r dogfennau ar gael ar gais trwy anfon e-bost at morol.n2k@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk neu drwy ffonio Canolfan Gofal Cwsmeriaid Cyfoeth Naturiol Cymru ar 0300 065 3000.

### Dogfennau rydym yn ymgynghori amdanynt

**'Dogfennau Asesu Safle' ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig bosibl.** Mae'r rhain yn disgrifio sail wyddonol pob cynnig ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig, ac maent yn dod gyda mapiau manwl o'r safleoedd arfaethedig:

- ACA bosibl North Anglesey Marine / Gogledd Môn Forol
  Dogfen Asesu Safle a mapiau.
- ACA bosibl West Wales Marine / Gorllewin Cymru Forol
  Dogfen Asesu Safle a mapiau.
- ACA bosibl Bristol Channel Approaches / Dynesfeydd Môr Hafren
  Dogfen Asesu Safle a mapiau.

**'Briffiau Adrannol' ar gyfer Ardal Gwarchodaeth Arbennig arfaethedig.** Mae'r rhain yn disgrifio sail wyddonol pob cynnig ar gyfer Ardal Gwarchodaeth Arbennig, ac maent yn dod gyda mapiau manwl o'r safleoedd arfaethedig:

- AGA arfaethedig Anglesey Terns / Morwenoliaid Ynys Môn
  Briff Adrannol a mapiau
- AGA Arfaethedig Northern Cardigan Bay / Gogledd Bae Ceredigion

Briff Adrannol a mapiau

- AGA Arfaethedig Skomer, Skokholm and the Seas off Pembrokeshire / Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro
  Briff Adrannol a mapiau

**Asesiadau Effeithiau Drafft ar gyfer yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig posibl, ac yr Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig arfaethedig.** Mae'r rhain yn trafod yr effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â chynigion ar gyfer yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig posibl a'r Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig arfaethedig, ynglŷn â'u rhyngweithio â gweithgareddau dynol o gwmpas y safleoedd.

Mae Asesiad Effaith Drafft ar gyfer pob ACAp ar gael yma. [Saesneg yn unig]

Gellir cael Asesiadau Effaith Drafft ar gyfer y tair AGA arfaethedig trwy glicio ar y cyswllt perthnasol ar gyfer yr AGA arfaethedig ar a restrir uchod.

Mae Asesiad Effaith drafft ar gyfer cyfran **alltraeth** AGA arfaethedig Skomer. Skokholm and the Seas off Pembrokeshire / Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro, a baratowyd gan y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur ar gael yma [Saesneg yn unig].

## Deunydd ategol, sy'n cael ei ddarparu er gwybodaeth

Mae'n bosibl y bydd y dogfennau canlynol yn eich helpu i wneud unrhyw ymateb yr hoffech ei wneud, ond maent yn cael eu darparu er gwybodaeth yn unig. Nid ydym yn ymgynghori amdanynt.

### *Gwybodaeth gyffredinol*

- Rhestr o Gwestiynau ac Atebion. Mae'n bosibl y byddwn yn diweddaru'r ddogfen hon wrth i'r ymgynghoriad fynd rhagddo.

### *Amcanion cadwraeth drafft a chyngor ynglŷn â gweithgareddau ar y safleoedd ac o'u cwmpas*

- Amcanion cadwraeth drafft Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur y DU a Chyfoeth Naturiol Cymru a chyngor ar weithgareddau:
  - ACA bosibl North Anglesey Marine / Gogledd Môn Forol
  - ACA bosibl West Wales Marine / Gorllewin Cymru Forol
  - ACA bosibl Bristol Channel Approaches / Dynesfeydd Môr Hafren

- Amcanion cadwraeth drafft Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y tair Ardal Gwarchodaeth Arbennig arfaethedig:
    - AGA arfaethedig Anglesey Terns / Morwenoliaid Ynys Môn
    - AGA Arfaethedig Northern Cardigan Bay / Gogledd Bae Ceredigion
    - AGA Arfaethedig Skomer, Skokholm and the Seas off Pembrokeshire / Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro

***Adroddiadau gwyddonol mewn perthynas â'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig arfaethedig***

- *Adroddiad 544 Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur y DU: Dadansoddiadau o ddata ac adroddiad modelu gan DHI Water Environments* [Saesneg yn unig]
  Adroddiad ar y dadansoddiad o ddata ar lamidyddion harbwr sydd ar gael yng nghronfa ddata Cyd-brotocol Creaduriaid Morfilaidd, a gafwyd mewn arolygon allan ar y môr, sydd wedi rhoi'r brif sail tystiolaeth ar gyfer nodi'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig arfaethedig. Agor adroddiad 544 y JNCC

- *Adroddiad 543 Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur y DU: Adroddiad ar ddadansoddiad o ddata yn deillio o'r tir* [Saesneg yn unig]
  Dadansoddiad o ddata sy'n deillio o arsylwadau llamidyddion yr harbwr o arolygon oddi ar y tir, sy'n darparu tystiolaeth ategol arall o ddefnydd llamidyddion o ddyfroedd arfordirol. Agor adroddiad 543 y JNCC

- *Adroddiad 565 Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur y DU: Y defnydd o ddata ar lamidyddion harbwr a welwyd ar gyfer llywio datblygiad Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ar ddyfroedd y DU* [Saesneg yn unig]
  Adroddiad ar sut mae dadansoddiad o ddata ar lamidyddion harbwr wedi cael ei ddefnyddio i ddatblygu argymhellion ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Mae hwn yn rhoi rhagor o fanylder na phob un o'r Dogfennau Asesu Safleoedd unigol a restrir uchod . Agor adroddiad 565 y JNCC

- *Adroddiad 547 Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur y DU: Unedau Rheoli ar gyfer creaduriaid morfilaidd yn nyfroedd y DU* [Saesneg yn unig]
  Disgrifiad o'r unedau rheoli ar gyfer y saith rhywogaeth forfilaidd fwyaf cyffredin yn nyfroedd y DU, gan gynnwys llamidyddion harbwr. Agor adroddiad 547 y JNCC

- Adroddiad 566 *Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur y DU* Arolwg o'r llenyddiaeth ynghylch gwarchod llamhidydd yr harbwr [Saesneg yn unig]
  Agor adroddiad 566 y JNCC

***Adroddiadau gwyddonol mewn perthynas â'r Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig arfaethedig***

- Mae'r Briffiau Adrannol ar gyfer pob un o'r Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig arfaethedig (gweler uchod) yn cynnwys cyfeiriadau at nifer o adroddiadau

gwyddonol a ddefnyddiwyd wrth nodi'r safleoedd, gan gynnwys dolenni i'r adroddiadau allweddol sydd ar gael ar wefan Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur y DU.

***Gwybodaeth sy'n ategu'r asesiadau o effeithiau***

- Mae contractwyr sy'n gweithio ar ran y cyrff cadwraeth natur statudol wedi paratoi adroddiad dystiolaeth i gefnogi asesiadau o effaith gymdeithasol ac economaidd bosibl y sawl ACA posibl a'r sawl AGA arfaethedig. Mae'r adroddiad dystiolaeth wedi'i gyhoeddi ar ffurf ddrafft, er mwyn cynorthwyo i nodi unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol a fyddai'n helpu i'w wella. [Saesneg yn unig]  Agor yr adroddiad tystiolaeth

***Arall***

- Copïau o'r llythyrau oddi wrth Lywodraeth Cymru yn gofyn i Gyfoeth Naturiol Cymru gynnal yr ymgynghoriad hwn. Mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer yr Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, ystyrir bod y rhain yn cynnwys yr hysbysiadau statudol oddi wrth weinidogion Cymru at Gyfoeth Naturiol Cymru, fel sy'n ofynnol o dan Reoliad 12B Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u hamnewidiwyd). [Saesneg yn unig]
  - Agor llythyr Llywodraeth Cymru yn gofyn i CNC gynnal ymgynghoriad am y cynigion ACA
  - Agor llythyr Llywodraeth Cymru yn gofyn i CNC gynnal ymgynghoriad am y cynigion AGA

## Sut ydw i'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn ac erbyn pryd?

Os hoffech drafod unrhyw agwedd ar yr ymgynghoriad hwn â staff Cyfoeth Naturiol Cymru cyn ichi gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad, gofynnir ichi gysylltu â ni trwy e-bostio eich enw a'ch rhif ffôn, ynghyd ac amlinelliad byr o'r hyn yr hoffech ei drafod, at morol.n2k@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk, ac wedyn bydd aelod o staff yn cysylltu â chi. Neu gallwch ein ffonio ni ar 0300 065 3000. Yn ddibynnol ar alw yn ystod y cyfnod ymgynghori, mae'n bosibl y trefnwn rai digwyddiadau 'galw heibio', yn debyg i'r rhai a gynhaliwyd gennym yn ystod hanner cyntaf 2015.

Rhaid inni dderbyn pob ymateb i'r ymgynghoriad hwn erbyn **hanner nos ar 19 Ebrill 2016 fan bellaf.** Ni ellir ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwnnw. Rhaid cyflwyno ymatebion trwy ddefnyddio ein ffurflen ymateb ar-lein (gweler isod), neu fel arall yn ysgrifenedig.

Y ffordd orau o ymateb yw cwblhau ein ffurflen ymateb ar-lein:
http://www.smartsurvey.co.uk/s/HVLLH/

Os nad ydych yn gallu ymateb ar-lein, mae'n bosibl hefyd ymateb trwy anfon e-bost at: morol.n2k@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk, neu ysgrifennu atom yn: Ymgynghoriad Morol Natura 2000, Cyfoeth Naturiol Cymru, Maes y Ffynnon, Bangor, LL57 2DW.

Os ydych yn dymuno ymateb trwy lythyr, fe fyddai'n ddefnyddiol pe baech yn defnyddio ein ffurflen ymateb safonol. Cysylltwch â ni ar 0300 065 3000 os hoffech gael copi papur o'r ffurflen ymateb safonol. **Fodd bynnag, bydd cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein yn ein cynorthwyo i ymdrin â'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ac i baratoi ein hadroddiad ar yr ymgynghoriad mewn ffordd effeithlon.**

Mae'r ffurflen ymateb ar-lein yn gofyn ichi nodi i ba safle neu safleoedd arfaethedig y mae eich ymateb yn perthyn. Os ydych yn ymateb trwy e-bost neu lythyr, **gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud wrthym yn eglur i ba safle, neu safleoedd, y mae eich ymateb yn perthyn.** Mae hyn yn hanfodol er mwyn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyd-bwyllgor Gwarchod Natur y DU i lawn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriadau. Yn ogystal mae modd i chi adael i ni wybod os hoffech i ni ystyried bod eich ymateb hefyd yn berthnasol i'r rhwydwaith ehangach o ACA posibl ar gyfer llamhidyddion harbwr yn y DU.

Mewn perthynas ag **ACA bosibl Bristol Channel Approaches / Dynesfeydd Môr Hafren**, cyfran fach iawn yn unig o'r ardal sydd yn nyfroedd glannau Cymru. Oni bai bod eich sylwadau yn ymwneud yn benodol â rhan Cymru yr Ardal Cadwraeth Arbennig bosibl hon, gofynnir ichi ymateb i ymgynghoriad Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur y DU http://jncc.defra.gov.uk/SACconsultation [Saesneg yn unig] yn hytrach nag i Gyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, ar gyfer pob ACA bosibl a phob AGA arfaethedig a restrir uchod, gofynnir ichi ymateb i ymgynghoriad CNC **yn unig**, gan y bydd CNC a'r Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur yn coladu ymatebion pan fo'n berthnasol ar lefel y DU (gweler y rhan nesaf "Ym mha ffordd y bydd CNC yn defnyddio fy ymateb". Nid oes angen ymateb i'r ddau ymgynghoriad mewn perthynas â'r un safle neu yr un safleoedd - mewn gwirionedd, gallai wneud hyn amharu ar y gwaith o ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriadau mewn modd effeithiol.

Rydym yn croesawu ymatebion yn y Gymraeg neu yn y Saesneg.

## Ym mha ffordd y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio fy ymateb?

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru, a Chyd-bwyllgor Gwarchod Natur y DU lle bo hynny'n berthnasol, yn defnyddio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn er mwyn paratoi adroddiadau ar gyfer Llywodraeth Cymru a llywodraeth y DU. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi maes o law ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru, ac/neu ar wefan Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur y DU.

Sylwer, er budd bod yn dryloyw ac agored, bydd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys enwau ymatebwyr, ond heb gynnwys gwybodaeth gysylltu, ar gael i'r cyhoedd a gellir eu cyhoeddi, gan gynnwys ar wefannau CNC a/neu JNCC**.**

Gallwn hefyd rannu unrhyw ymatebion unigol yr ydym yn eu derbyn â chyrff cadwraeth natur statudol eraill, Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig (Cydbwyllgor Gwarchod Natur*, Natural England, Scottish Natural Heritage, Llywodraeth Cymru, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig y DU (Defra), Llywodraeth yr Alban ac Adran yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon*) er mwyn helpu i sicrhau ymagwedd gyd-drefnedig tuag at yr ymgynghoriad hwn ac i baratoi adroddiadau i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Bydd unrhyw wybodaeth bersonol y byddwch yn ei rhoi inni yn cael ei defnyddio a'i storio yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 1998. Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth i ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig, fel y disgrifir uchod. Dylech sicrhau nad ydych yn crybwyll enwau unigolion eraill, nac yn cynnwys gwybodaeth bersonol yng nghorff eich ymateb.

**Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch barn ynghylch y cynigion ACA neu AGA hyn fod ar gael i'r cyhoedd, cynghorir chi i beidio ag ymateb i'r ymgynghoriad hwn.**